**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# ‘DIWEDDARIAD AR AIL-FEDDWL AM ADEILADU’

## Pwrpas

1. Pwrpas yr adroddiad yw:

a) rhoi i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai adroddiad cynnydd pellach ar ‘Ail-Feddwl am Adeiladu’ yn unol â chais y Cadeirydd yn dilyn yr adroddiad i’r Pwyllgor ar 20 Mehefin 2001.

b) ceisio cael cefnogaeth y Pwyllgor i gynigion ar gyfer gweithredu pellach.

## Argymhelliad

2. Argymhellir y dylai’r Pwyllgor:

a) nodi’r cynnydd

b) gofyn am adroddiad cynnydd pellach ym mis Ionawr 2003

c) cymeradwyo’r cynigion ar gyfer gweithredu pellach ym mharagraff 22

## Amseru

3. Cyflwynir yr adroddiad er mwyn galluogi’r Pwyllgor i gyfrannu at a chefnogi’r gwaith o baratoi canllawiau ar arfer gorau ym maes caffael gwaith adeiladu yn y sector cyhoeddus.

## Cefndir

### AIL-FEDDWL AM ADEILADU

4. Cyhoeddwyd Adroddiad Egan ‘Rethinking Construction’ ym 1998, gan argymell ymrwymiad i wella parhaus ar y broses adeiladu gan gynnwys y gadwyn gyflenwi gyfan yn hynny o beth. Ers ei gyhoeddi rhoddwyd llawer mwy o sylw i faterion adeiladu, yn enwedig felly yng nghyswllt materion Iechyd a Diogelwch. Mae polisïau Llywodraeth y DU a’r Cynulliad wedi’i gwneud yn

fwy ofynnol i gleientiaid yn y sector cyhoeddus weithredu'n llawn egwyddorion 'Rethinking Construction' sydd erbyn hyn wedi hen ennill eu plwyf ac sy'n cael eu cydnabod yn arfer gorau.

5. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 09-01 ar 20 Mehefin 2001 Eitem 4: 'Ail-Feddwl am Adeiladu':

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig fod y Cynulliad yn cefnogi a gweithredu Ail-Feddwl am Adeiladu mewn cynlluniau caffael gwaith adeiladu yn y sector cyhoeddus. Byddai hyn yn gwella ansawdd a chost effeithiolrwydd ei fuddsoddiad ac yn hwyluso'r gwaith o ddarparu prosiectau adeiladu 'arfer gorau' i'r dyfodol.

Dywedodd y Gweinidog fod disgwyl i'r Cynulliad baratoi canllawiau ar sut y gellid cynnwys egwyddorion Ail-Feddwl am Adeiladu mewn dulliau caffael.

Cymeradwyodd yr Aelodau y cynnig y dylai'r Cynulliad, trwy ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ofalu fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael gwybod am y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Tasglu Llywodraeth Leol. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhelliad y dylai'r Gyfarwyddiaeth Tai gynnull Fforwm Adeiladu yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cynulliad, a chyrff cleient eraill o'r sector cyhoeddus.

**LLYWODRAETH Y DU AC AIL-FEDDWL AM ADEILADU**

6. Ym mis Mehefin 2001 cymerodd yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) gyfrifoldeb am yr ymgyrch Ail-Feddwl am Adeiladu, o dan nawdd ei His-Adran Adeiladu. Polisi'r Llywodraeth yw y dylai pob Adran noddi a Chyrff Cyhoeddus Anadrannol cysylltiol weithredu'n llawn egwyddorion Ail-Feddwl am Adeiladu erbyn 2003-04. Mae'r DTI wedi cadarnhau y bydd arian ar gyfer y rhaglen Ail-Feddwl am Adeiladu yn parhau hyd at fis Mawrth 2004. Ym mis Awst 2001 dywedodd y Gweinidog dros Adeiladu y dylai strwythur Ail-Feddwl am Adeiladu gael ei symleiddio ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynyddu'r ymdeimlad o berchnogaeth ohoni yn y diwydiant, ac yn enwedig felly yn y rhanbarthau, ac ar wella'r trefniadau ar gyfer lledaenu newyddion amdano ymhlith cwmnïau bach a chanolig.

**Fforwm Strategol ar Adeiladu**

7. Ym mis Mehefin 2001 cafodd Bwrdd y Diwydiant Adeiladu (CIB) ei ddirwyn i ben, a sefydlwyd Fforwm Strategol ar gyfer Adeiladu o dan gadeiryddiaeth Syr John Egan yn cynrychioli'r Llywodraeth, cleientiaid a chyflenwyr adeiladu a'r Fforwm Strategol o Gyrff Hyfforddi Cenedlaethol. Bydd y Fforwm Strategol yn canolbwyntio ar dair prif flaenoriaeth Ail-Feddwl am Adeiladu:

- Yr angen am dimau cyflenwi integredig
- Yr angen i gleientiaid fod yn ymrwymedig i arfer gorau ac i'w arwain ac,
- Yr angen i fynd i’r afael â materion ‘pobl’.

**Rethinking Construction Cyf**

8. Mae’r DTI erbyn hyn yn noddi un cwmni, Rethinking Construction Cyf, i gydlynu rhannau unigol y rhaglen:

> **Mudiad Arloesi (M4I)**, yn hyrwyddo Ail-Feddwl am Adeiladu yn sectorau’r diwydiant nad ydynt yn ymwneud ag adeiladu a datblygu’r rhwydwaith rhanbarthol.
>
> Mae’r **Fforwm Tai** yn hyrwyddo ‘Ail-Feddwl am Adeiladu’ ymhlith adeiladwyr tai a chleientiaid.
>
> Mae’r **Tasglu Llywodraeth Leol (LGTF)** yn hyrwyddo ‘Ail-Feddwl am Adeiladu’ ymhlith awdurdodau lleol yn Lloegr.
>
> Mae’r **Rhaglen Arfer Gorau ar Adeiladu (CBPP)** yn dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau er mwyn gwella trefniadau rheolaeth busnes yn y diwydiant adeiladu.
>
> **Parchu Pobl** - mae’r adroddiad ‘A Commitment to People: Our Biggest Asset’ a’r pecynnau gwaith sydd ynghlwm wrtho – a gynhyrchwyd gan y Gweithgor Ail-Feddwl am Adeiladu ar gyfer Pobl – yn ymateb i’r her o ddod o hyd i ffyrdd ymarferol ac effeithiol y gall y diwydiant adeiladu wella’n ddirfawr ar ei berfformiad ar ‘faterion pobl’. Hoelia sylw ar chwe thema ar gyfer gweithredu:
>
> Amrywiaeth, Lles ar y safle, Iechyd, Diogelwch, Dysgu gydol oes a lles oddi ar y safle.
>
> Awgryma welliannau sylfaenol y gellir eu mesur a’u holrhain trwy set Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) ac mae wedi datblygu set o becynnau gwaith ar gyfer pob un o’r themâu hyn i helpu sefydliadau i asesu, monitro a meincnodi eu perfformiad.

**Gweithgor Iechyd a Diogelwch**

9. Mae ymgyrch "Revitalising Health and Safety" a "Working Well Together" y Gweithgor Iechyd a Diogelwch ac Ail-Feddwl am Adeiladu yn cydweithio ar Parchu Pobl. Lansiwyd

rhaglen waith yn Uwch-gynhadledd Iechyd a Diogelwch y Llywodraeth ar y Diwydiant Adeiladu ym mis Chwefror 2002, gan osod targedau ar gyfer gwella record iechyd a diogelwch y diwydiant.

**Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu (CITB)**

10. Mae angen i'r diwydiant yng Nghymru recriwtio a chadw 3,000 o bobl newydd bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf. Mae Strategaeth Cyfleoedd Cyfartal y CITB yn hyrwyddo gweithlu amrywiol ac yn cynnig cefnogaeth trwy wahanol raglenni er mwyn galluogi cyflogwyr i recriwtio gweithwyr lleol ac o gefndiroedd amrywiol.

**Partneriaethau Cydweithredol Lleol (LCP)**

11. Pwrpas cynlluniau LCP yw recriwtio mwy o bobl Ddu ac Asiaidd a menywod yn y diwydiant adeiladu. Mae CITB Cymru yn datblygu prosiectau LCP gyda phartneriaid lleol megis Cymdeithasau Tai, Awdurdodau Lleol a chleientiaid yn y sector preifat. Y prosiect LCP cyntaf ar gyfer 2002 yw Prosiect Gweithdy Menywod Caerdydd.

**Rhwydwaith Cenedlaethol Ail-Feddwl am Adeiladu**

12. Ysgrifennodd Cyfarwyddydd Is-Adran Adeiladu'r DTI at y Cynulliad ym mis Awst 2001 yn awgrymu rhwydwaith o Ganolfannau Ail-Feddwl am Adeiladu rhanbarthol yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ogystal ag yn y naw Rhanbarth yn Lloegr, gan awgrymu y dylent ddatblygu eu cynlluniau a'u mentrau eu hunain er mwyn parhau â gwaith yr ymgyrch Ail-Feddwl am Adeiladu ar ôl 2003-04. Gwahoddodd y DTI gynrychiolwyr o'r rhanbarthau i ddatblygu'r syniadau hyn ymhellach mewn dau gyfarfod, ym Manceinion ym mis Rhagfyr 2001 ac yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2002. Cefnogodd y cynrychiolwyr y syniad o rwydwaith o Ganolfannau Ail-Feddwl am Adeiladu rhanbarthol fel y ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo'r ddadl fusnes o blaid Ail-Feddwl am Adeiladu a'i bwysigrwydd o ran adfywio rhanbarthol a datblygu economaidd.

**Awdurdodau Lleol a Chleientiaid yn y Sector Cyhoeddus**

13. Ym mis Hydref 2001 trefnwyd cyfres o ddeuddeg cynhadledd genedlaethol ledled y DU 'Ail-Feddwl am y Cleient Adeiladu: Y Drafodaeth Genedlaethol 2001' gan Ail-Feddwl am Adeiladu er mwyn annog y sector cyhoeddus i fabwysiadu dulliau caffael arfer gorau yn y diwydiant adeiladu. Fe'u trefnwyd ar gyfer uwch reolwyr cleientiaid yn y sector cyhoeddus gan gynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai, Awdurdodau Addysg a Iechyd ac Ymddiriedolaethau Iechyd y GIG.

## Cefndir

## LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

### Cynllun Caffael Cymru

14. Yn sgil cymeradwyo Adolygiad Caffael Cymru - ‘Gwella Gwerth Cymru’, sefydlwyd Cynllun Caffael Cymru i weithredu argymhellion yr Adolygiad ac i gael gwell gwerth am arian o drefniadau caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Darganfu’r Adolygiad fod rhaid i’r sector cyhoeddus yng Nghymru wneud mwy i weithredu ‘Ail-Feddwl am Adeiladu’ ac fod llawer o waith i’w wneud er mwyn cyflwyno egwyddorion arfer gorau yn y diwydiant adeiladu yn unol â’r hyn a argymhellir yn ‘Ail-Feddwl am Adeiladu’. Argymhellodd yr adroddiad hwnnw y dylid creu concordat rhwng y Cynulliad a Swyddfa Masnachu’r Llywodraeth (OGC) er mwyn sicrhau fod cyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth caffael y llywodraeth yn cael eu defnyddio i’r eithaf.

### Concordat Swyddfa Masnachu’r Llywodraeth (OGC)

15. Cytunodd y Cynulliad trwy 'concordat' i weithio tuag at gyflawni canllawiau’r OGC, sy’n cynnwys cynllun gweithredu o’r enw 'Cyflawni Cynaladwyedd mewn gwaith Caffael yn y Diwydiant Adeiladu', a lansiwyd gan Weinidogion y DU ym mis Mehefin 2000. Gofynnir i bob Adran, Asiantaeth, Corff Cyhoeddus Anadrannol (a, thrwy’r concordat, y Cynulliad) fabwysiadu’r cynllun gweithredu hwn erbyn mis Mawrth 2003, cynllun y dylid ei ddefnyddio ymhob prosiect Adnewyddu, Cynnal a Chadw a Gwaith Newydd. Mae’r concordat yn caniatáu i’r Cynulliad osod ei dargedau ei hun ond ni wnaeth hynny eto ar gyfer y diwydiant adeiladu ac mae mwy o waith i’w wneud yn hyn o beth er mwyn cyrraedd y dyddiad cau ym mis Mawrth 2003.

Mae’r OGC hefyd yn paratoi canllawiau helaeth ar drefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu a chanllawiau Gwerth am Arian VFM i’w defnyddio gyda chynlluniau caffael cymhleth.

### Awdurdodau Lleol

16. Mae’r ‘Compact rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy’: Atodiad1- ‘Prosiect’ Cyd Gynllun Gweithredu’: yn cadarnhau y byddant yn cydweithio er mwyn paratoi canllawiau arfer gorau ar gyfer trefniadau caffael cynaliadwy yn y sector cyhoeddus. Mae angen dosbarthu mwy o wybodaeth a chanllawiau i Awdurdodau Lleol, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer staff sydd ynghlwm wrth waith caffael yn y diwydiant adeiladu.

### Pwyllgor Archwilio

17. Mae’r Pwyllgor Archwilio wedi dynodi angen am ganllawiau canolog ar drefniadau ar gyfer

prosiectau adeiladu'r Cynulliad ac mae'n disgwyl i Fforwm Adeiladu y Cynulliad chwarae rhan fwy blaenllaw yn y gwaith o baratoi canllawiau arfer gorau.

**Datblygu Cynaliadwy ac Adeiladu**

18. Dywed Adroddiad Blynyddol "Greening Government" y Llywodraeth y bu disgwyl i adrannau'r Llywodraeth ers 1990 weithredu polisïau caffael sy'n rhoi ystyriaeth i effeithiau amgylcheddol eu penderfyniadau prynu tra'n cael gwerth am arian ar yr un pryd. Golyga hyn fod yn rhaid edrych ymhellach na'r pris cychwynnol er mwyn ystyried costau oes gyfan, ansawdd a manteision eraill fel y'u hesbonnir yn y 'Green Guide for Buyers' a gyhoeddwyd gan Uned Datblygu Cynaliadwy DEFRA ym mis Chwefror 2001, sy'n dangos sut i roi'r ymrwymiad hwn ar waith. Hyd yn hyn nid yw'r Cynulliad wedi llawn ystyried y materion hyn o ran canllawiau caffael yn y diwydiant adeiladu.

**<u>Ystyriaeth</u>**

**LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AC AIL-FEDDWL AM ADEILADU**

**Cynnydd yn y Cynulliad ac yn y sector cyhoeddus yng Nghymru**

19. Wrth ymateb i safbwyntiau'r Pwyllgor ac wrth gefnogi ymrwymiad y Cynulliad i hyrwyddo Ail-Feddwl am Adeiladu mewn trefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu, cymerodd y Cynulliad y camau canlynol ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor:

**Tai Cymdeithasol**

O fewn rhaglen ddatblygu'r Grant Tai Cymdeithasol (SHG) mae'r Cynulliad wedi parhau i annog a chefnogi, ble'n briodol, y defnydd o bartneriaethau prosiect mewn trefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu.

**Gweithgor yr RSL ar Arfer Gorau Caffael yn y Diwydiant Adeiladu**

Mae Cyfarwyddiaeth Tai y Cynulliad a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru wedi cynnull gweithgor i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynhyrchu canllawiau arfer gorau ar gyfer trefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Fe'i cyhoeddir ar ffurf 'Arweiniad i Arfer Gorau' ar drefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu, ac fe fydd yn cynnwys datganiad clir o amcanion a disgwyliadau'r Cynulliad. Disgwylir drafft cyntaf erbyn mis Awst 2002.

**Rhaglen Arloesedd ym maes Tai Cymdeithasol (SHIP)**

Mae'r Cynulliad wedi gwahodd y cylch cyntaf o geisiadau ar gyfer grantiau o dan y Rhaglen Arloesedd Tai Cymdeithasol. Rhaglen ddwy flynedd yw hon ar gyfer 2002-04 er mwyn annog arddangos egwyddorion cynaliadwy ym maes tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a hyrwyddo arfer gorau yn y cynnyrch terfynol a'r broses adeiladu.

**Gweithdai Arfer Gorau**

Noddwyd rhaglen o bump gweithdy arfer gorau Rhwydwaith Cynhyrchiant Adeiladu (CPN) ledled Cymru yn ystod 2001-02 ac mae'n cynllunio cyfres bellach o chwe gweithdy ar gyfer eleni ar yr amod fod arian digonol ar gael. Mae'r CPN yn gweithredu fel rhan o'r Rhaglen Arfer Gorau yn y Diwydiant Adeiladu. Canlyniad hyn yw gwella ymwybyddiaeth y diwydiant o arfer gorau ym maes adeiladu.

**"Pecyn Ail-Feddwl am Adeiladu" yr LGTF**

Ym mis Medi 2001 cyflwynodd y Gweinidog 'Becyn Gwaith Ail-Feddwl am Adeiladu' yr LGTF i Brif Weithredwyr ac Arweinyddion pob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Esboniodd llythyr y Gweinidog sut y mae'r Pecyn Gwaith yn arddangos sut y gellir cyflawni manteision Ail-Feddwl am Adeiladu o fewn fframwaith y sector cyhoeddus a sut y gall fod o fudd mawr i Awdurdodau.

**Cysylltiadau Awdurdodau Lleol**

Ym mis Ionawr 2002 ysgrifennodd y Cyfarwyddydd Tai at bob Prif Weithredwr gan ofyn i bob Awdurdod Lleol ddynodi swyddog yn gyswllt ffurfiol ar gyfer materion Ail-Feddwl am Adeiladu. Mae angen dosbarthu mwy o wybodaeth a chanllawiau i Awdurdodau Lleol, yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer staff sydd ynghlwm wrth waith caffael yn y diwydiant adeiladu.

**Cleient Ail-Feddwl am Adeiladu: Y Drafodaeth Genedlaethol 2001**

Ym mis Hydref 2001 cefnogodd y Cynulliad yr ail gynhadledd yn y gyfres hon yng Nghaerdydd a thraddododd y Dirprwy Weinidog y brif anerchiad.

**Fforwm Adeiladu y Cynulliad**

Cynullwyd Fforwm Adeiladu y Cynulliad ym mis Tachwedd 2001 i weithredu ar Ail-Feddwl am Adeiladu o fewn cynlluniau adeiladu a noddir gan y Cynulliad yn fforwm ar gyfer rhannu canllawiau arfer gorau ac i gynorthwyo Is-Adrannau'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i ffurfio gwell canllawiau ar

gyfer trefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu. Mae'r aelodau'n cynrychioli Is-Adrannau'r Cynulliad a chyrff y sector cyhoeddus a chanddynt gyfrifoldebau am drefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu.

Ni fydd yn ysgwyddo cyfrifoldebau'r Is-Adrannau na'r cyrff hynny am reoli na chaffael eu gweithgareddau adeiladu. Bydd yn gweithio o fewn fframwaith polisïau'r Cynulliad gan ddefnyddio'r canllawiau arfer gorau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Masnachu'r Llywodraeth ac Ail-Feddwl am Adeiladu, ac fe fydd yn rhoi sylw i argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Archwilio.

**Adolygiad Caffael Contractau y Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth**

Cynhaliwyd adolygiad o ddulliau caffael ar gyfer rhaglen Traffyrdd a Phriffyrdd y Cynulliad fel rhan o Gynllun Gweithredol y Cynulliad i Ddarparu Gwell Trefniadau Llywodraethu. Cyhoeddwyd 'Strategaeth Gaffael ar gyfer Rhaglen Traffyrdd a Phriffyrdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru' sy'n argymell defnyddio mathau newydd o gontractau ac y dylid monitro a gwerthuso prosiectau yn unol ag argymhellion 'Ail-Feddwl am Adeiladu'.

**Cynllun Caffael Cymru**

Lansiwyd Cynllun Caffael Cymru ym mis Tachwedd 2001, wedi i'r Adolygiad Caffael gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Mae'n gosod targed arbediad trwy effeithlonrwydd Gwerth am Arian blynyddol o 3% ar gyfer Cymru gyfan. Atega waith Swyddfa Masnachu y Llywodraeth (OGC) ac fe'i gweithredir trwy Dîm Cynllun a Thîm Llywodraeth Leol. Mae'r Cynllun yn ariannu Prosiectau Arloesi er mwyn helpu i weithredu argymhellion yr Adolygiad ac yn eu plith mae prosiect ar gyfer mabwysiadu Proses Adolygiad Porth yr OGC a Gr•p Adeiladuar-lein Gogledd Cymru.

**Gr•p Adeiladuar-lein Gogledd Cymru**

Caiff prosiect Arloesi ei noddi gan Gynllun Caffael Cymru fel rhan o Raglen Datblygu Cyflenwyr y Diwydiant Adeiladu. Mae'n annog holl gleient gyrff y sector cyhoeddus yn y Gogledd (ardaloedd siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint a Wrecsam) i ymuno ag Adeiladuarlein (system cyn-gymhwyso Llywodraeth y DU ar gyfer cyflenwyr yn y diwydiant adeiladu) ac fe fydd yn annog cyflenwyr i ymgymhwyso trwy gyfrwng rhaglen ddatblygu ar gyfer cyflenwyr lleol. Dylai fod o fudd i gleientiaid trwy arbed amser a thrwy ddarparu gwell data cyn-cymhwyso, ac fe fydd gan gyflenwyr well a thecach mynediad i gyfleoedd busnes lleol a chenedlaethol. Os yw'r prosiect yn llwyddiannus, y

bwriad yw y dylid ei ymestyn trwy Gymru gyfan. Hyd y prosiect yw Ebrill 2002-Mawrth 2003 er mwyn cael y cynllun cyfan ar waith. Y prif bartneriaid yw'r Cynulliad a Chyswllt Busnes.

**Ystâd y GIG yng Nghymru- Canllawiau Caffael**

Wrth gydnabod yr angen i hyrwyddo polisïau adeiladu ac ynni'r Cynulliad yn sector y Gwasanaeth Iechyd, mae'r Is-Adran Ystadau Iechyd wedi cyfarwyddo Ystadau Iechyd Cymru, sy'n darparu cyngor a chanllawiau technegol i'r sector, i adolygu'r canllawiau caffael a'r safonau technegol presennol o ran polisïau'r Cynulliad a chanllawiau llywodraeth ganolog. Bwriedir cyflwyno adroddiad cynnydd fel rhan o'r adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor ar 'Ail-Feddwl am Adeiladu'.

Mae Stadau Iechyd Cymru yn gweithredu fel ymgynghorwyr yn y cyswllt hwn o dan amodau cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Cynulliad. O dan amodau'r cytundeb hwn mae'r WHE yn darparu ystod o wasanaethau ar gyfer y Cynulliad ac Ymddiriedolaethau'r GIG, yn eu plith:

- hyrwyddo agweddau amgylcheddol Polisi Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad Cenedlaethol

- cyngor ar brosesau caffael a hwyluso ymdrechion Ymddiriedolaethau'r GIG yn y broses o sicrhau bod cynlluniau datblygu cyfalaf arfaethedig yn unol â gofynion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Canolfan Ail-Feddwl am Adeiladu Cymru**

20. Yn dilyn cyfarfodydd y Rhwydwaith Cenedlaethol, sefydlwyd Canolfan Ail-Feddwl am Adeiladu i Gymru yn gwmni cyfyngedig heb-elw ac fe'i lansiwyd ym mis Mawrth 2002. Fe'i sefydlwyd yn unol ag ymrwymiad y Cynulliad i, a pholisi Llywodraeth y DU ar gyfer, hyrwyddo Ail-Feddwl am Adeiladu'n rhanbarthol. Gwnaeth y Ganolfan gais ffurfiol i'r Cynulliad am gyfraniad ariannol tuag at ei gostau gweithredol sylfaenol yn y flwyddyn gyntaf, bydd angen cefnogaeth ar gyfer dwy flynedd arall, ac o hynny ymlaen mae'n disgwyl bod yn hunan-gynhaliol gan dderbyn mwy o gyfraniadau oddi wrth y sector cyhoeddus a ffynonellau eraill.

Fe'i rheolir gan Fwrdd sy'n ymgynghori â gr•p llywio agored ac eang ei gynrychiolaeth, **Fforwm Ail-Feddwl am Adeiladu Cymru,** sy'n cynnwys aelodau o gyrff cleient, y diwydiant a

llywodraeth wedi’u hymrwymo’n ffurfiol i Ail-Feddwl am Adeiladu a chydweithio. Ar yr amod fod arian digonol ar gael, bydd y Bwrdd yn penodi staff gweithredol i redeg y Ganolfan ac i weithredu ei gynllun gweithredu. Bydd Grwpiau Tasg yn canolbwyntio ar dargedau ar gyfer gwella yn seiliedig yn fras ar argymhellion Adroddiad Egan:

- Perfformiad cleientiaid a threfniadau caffael
- Arloesedd ac Arfer Gorau
- Addysg, medrau a hyfforddiant
- Gwasanaethau cynhaliol i fusnesau
- Iechyd a diogelwch
- Mesur a monitro yn y diwydiant
- Adeiladu Cynaliadwy

**Clybiau Arfer Gorau ar Adeiladu yng Nghymru**

21. Sefydlwyd clybiau yn ffurfiol ac maent ar waith yng Nghaerdydd ac Abertawe. Byddai’r Clybiau Arfer Gorau (BPC) yn cysylltu â chlybiau eraill yn y DU trwy gynadleddau bob chwe mis er mwyn rhoi cyfle i aelodau pwyllgorau BPC rannu gwybodaeth am arfer gorau, a thrafod problemau, atebion a materion perthnasol eraill.

**<u>Cynigion ar gyfer Gweithredu Pellach:</u>**

22. Argymhellir:

a) Y dylai’r Gyfarwyddiaeth Tai trwy ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) weithredu er mwyn annog Awdurdodau Lleol yng Nghymru i weithredu ar gyngor y Gweinidog o ran y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Tasglu Llywodraeth Leol.

b) Y dylai Fforwm Adeiladu’r Cynulliad baratoi cynigion ar gyfer ei rôl, swyddogaeth a'r goblygiadau ar adnoddau o ran:

-yr angen am ganllawiau canolog ar drefniadau caffael ar gyfer prosiectau adeiladu y Cynulliad yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Archwilio

-cyngor a chanllawiau i gyrff yn y sector cyhoeddus.

**<u>Goblygiadau Ariannol</u>**

23. Mae costau posib i rai gweithgareddau, yn enwedig felly yng nghyswllt y Ganolfan Ail-Feddwl am Adeiladu i Gymru, gweithdai arfer gorau CPN a dosbarthu gwybodaeth a chyngor i Awdurdodau Lleol. Mae goblygiadau ariannol i'r Cynulliad ym Mlynyddoedd 2003-04 a 2004-05 y rhoddir ystyriaeth iddynt yn y Cylch Cynllunio Cyllidebol ac a gaiff ei drafod mewn adroddiad ar wahân. Cynhwysir y gwaith sydd ynghlwm wrth y gwariant hwn yn y cyllidebau presennol ac arfaethedig ar gyfer costau gweinyddu.

## Cydymffurfio

24. Nid oes unrhyw gwestiynau rheoleidd-dra na chywirdeb. Yn unol ag FN1/01 nid oes angen i'r adroddiad hwn gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan ACO ond anfonir copi ohono i Flwch Llythyrau Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad at ddibenion monitro.

## Themâu cyffredin

25. Bydd hyrwyddo a gweithredu egwyddorion 'Ail-Feddwl am Adeiladu' mewn trefniadau caffael yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r nod o gyflawni amcanion polisïau'r Cynulliad ar gyfer Gwell Cymru, yn enwedig felly'r rhai sy'n ymwneud â Gwella Ansawdd Bywyd, Datblygu Economaidd a Datblygu Cynaliadwy.

26. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Cynaliadwy sy'n mynnu fod yn rhaid defnyddio egwyddorion datblygu cynaliadwy yn holl waith y Cynulliad, gyda hynny'n anorfod yn golygu newid diwylliant ac arferion gwaith. Mae gan y diwydiant adeiladu'r potensial i wneud cyfraniad o bwys i ddatblygu cynaliadwy ac mae Ail-Feddwl am Adeiladu yn helpu'r diwydiant adeiladu i ddod yn fwy cynaliadwy trwy fynd i'r afael â phryderon am wastraff, llygredd, ansawdd a boddhad defnyddwyr.

## Camau i'w cymryd gan y pwyllgor pwnc

27. Nodi cynnwys yr adroddiad, cefnogi'r argymhellion a gofyn am adroddiad cynnydd pellach.

**Man cyswllt**

Cyfarwyddiaeth Tai, Cangen Adeiladu ac Ynni Domestig / Ian Layzell est 6914